# Creu marchnadoedd ar gyfer cig coch organig yng Nghymru

## 1. Cynhyrchu cig coch yng Nghymru

- Y mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchu yng Nghymru yn newydd
- Y mae rhannau eraill o'r DU yn gweld cynnydd tebyg mewn cynhyrchu cig coch organig
- Y mae'r farchnad adwerthu ar gyfer cig coch organaidd yn y DU yn gymharol newydd a heb ei phrofi
- Y mae'r farchnad adwerthu cig coch organig yng Nghymru yn fach.

Ar gyfer y DU yn gyffredinol, y mae cynhyrchu mewnwladol wedi parhau i gynyddu, gan ostwng lefel mewnforion i oddeutu 25% ar gyfer cig eidion a 5% ar gyfer cig oen yn 2002/03. Ar hyn o bryd, y mae mwyafrif llethol y cig coch organig a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei werthu mewn mannau eraill yn y DU.

**Tŵf mewn cynhyrchu da byw organig yng Nghymru, 1998/99 hyd 2002/03**

| | 1998/99 | 2000/01 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| **Gwartheg sugno organig** | 600 | 1,800 | 2,300 |
| **Gwartheg organig >12m** | 800 | 1,400 | 3,400 |
| **Defaid organig** | 8,000 | 25,000 | 50,000 |
| **Ŵyn/hesbinod organig** | 12,000 | 35,000 | 65,000 |

Ffynhonnell: Canolfan Organig Cymru, 2003. Nid oes data ar gyfer 1999/00

**Prisiau cig coch organig yn y DU (ceiniog y kilo pwysau marw)**

| | Hyd/Tach 2002 | Ion/Chwef 2003 | Ebrilll/Mai 2003 | Gorff/Awst 2003 | Hyd/Tach 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cig eidion** | 220-230 | 230-240 | 230-240 | 225-235 | 230-240 |
| **Cig oen** | 250-260 | 280-285 | 300+ | 280 | 270 |

Ffynhonnell: 'Organic Farming Magazine', 'Soil Association'

## 2. Rhagolygon ar gyfer y farchnad

Y mae'n debyg y bydd cynnydd cyson yn y cig coch organig sy'n dod ar y farchnad rhwng 2004 a 2006 . Y mae hyn oherwydd bod tir sy'n cael ei drawsnewid ar gyfer ffermio organaidd yn barod ar gyfer cynhyrchu, a bod y cylchoedd cynhyrchu hir ar gyfer cig coch, yn enwedig cig eidion, yn dod i ben.
Y mae'r galw'n cynyddu, ond y mae angen i'r rheini sy'n ymwneud â'r farchnad weithio'n barhaus er mwyn sicrhau bod y galw yn cynyddu'n gyson. Y mae hyn yn gofyn am ymrwymiad pellach ar ran arwerthwyr lluosog i ddod o hyd i ffynonellau cig organig Prydeinig.

### Ffynonellau gwybodaeth farchnata

Y mae Canolfan Organig Cymru yn cynhyrchu amrywiaeth o wybodaeth farchnata i gefnogi ffermwyr organig:

- Gall ffermwyr ymweld â'r **we-dudalen farchnata** yn www.organic.aber.ac.uk/markets
- Tanysgrifio i'r **e-fwletin gwybodaeth farchnata** misol, lle ceir cyfnewid gwybodaeth trwy'r gadwyn farchnata organig i gyd. Er mwyn cael ôl-rifynnau ac i danysgrifio, ewch i: www.organic.aber.ac.uk/markets/mibulletin
- Darllen **adroddiadau manwl** am y cyfleoedd a'r her sy'n wynebu cynhyrchu cig coch a chynhyrchion llaeth organig yng Nghymru. Am gopïau rhad ac am ddim, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru', neu llwythwch i lawr o: www.organic.aber.ac.uk/markets
- Y mae **e-fwletin 'Organig Cymru'** yn cynnwys ymchwil, newyddion a digwyddiadau sy'n berthnasol i'r sector organig yng Nghymru. Er mwyn tanysgrifio, anfonwch e-bost at jnp@aber.ac.uk, neu ymwelwch â www.organic.aber.ac.uk/Bulletin/index.shtml ar gyfer ôl-rifynnau.

## 3. Goblygiadau ac argymhellion ar gyfer ffermwyr organig

### Gwell cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr a thrwy'r holl gadwyn gyflenwi

Gall cynhyrchwyr Cymreig elwa ar amrywiaeth o fanteision trwy ymuno â grwpiau marchnata cynhyrchwyr, er enghraifft:

- Sefydlogrwydd prisiau tymor hir
- Mynediad i farchnadoedd mwy o faint, megis adwerthwyr lluosog
- Cymorth gyda marchnata
- Manteision pellach yn cynnwys hyfforddiant, prynu porthiant fel grŵp a mewnbynnau eraill.

**Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif 18 · Rhagfyr 2004**

*Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Ffôn:. 01970 622248*
*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i bartneriaid dderbyn y cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw weithredu ar sail ei daflenni ffaith neu unrhyw gyhoeddiadau eraill.*

Argymhellir bod y grwpiau cynhyrchwyr Cymraeg yn ymgysylltu â Ffederasiwn y Grwpiau Marchnata Da Byw Organig. O safbwynt cynhyrchu a marchnata, gall cydweithio yn y cyfryw fodd helpu i wella ansawdd a chysondeb y cyflenwad. Y mae'r Ffederasiwn hefyd yn sicrhau nad yw rhai grwpiau yn codi prisiau is na grwpiau eraill. Ymhellach, y mae'n galluogi i fwy o gig a brosesir yng Nghymru gael ei farchnata.

### Datblygiad brandiau organig Cymreig

Y mae ymchwil farchnata wedi dangos bod brandio yn gallu bod yn offeryn marchnata pwysig. Gall y brandio fod yn ddeublyg – yn canolbwyntio ar ansawdd y cig coch organig yn ogystal â'r ffynhonnell. Ymhlith yr opsiynau gwahanol ar gyfer brandio y mae:

- Brandio cenedlaethol, e.g. Cig oen/eidion organig Cymreig
- Brandio Rhanbarthol, e.e. Cig eidion Sir Benfro
- Brandio grŵp, e.g. Fferm y Graig, 'Cambrian Organics'
- Brandio ar gyfer grwpiau rhanbarthol llai o ffermwyr, e.e. llaeth â blas yn dwyn yr enw 'Daioni'.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â'r Canolfannau Bwyd Cymreig (gweler isod).

### Gwerthiannau uniongyrchol ac annibynnol

Tra gwerthir 80%o gynnyrch organig trwy archfarchnadoedd, y mae datblygiad gwerthiannau annibynnol yn cynnig marchnad werthfawr arall. Y mae **manteision** gwerthiannau uniongyrchol yn cynnwys:

- Byrhau'r gadwyn gyflenwi
- Gwella ymwybyddiaeth y cwsmer o gynnyrch organig – cyfle i egluro pam fod cynnyrch organig yn ddrytach a beth yw manteision bwyta cynnyrch organig
- Rheoli ansawdd – cyfle i gael mynediad i gynhyrchion nas derbynnir gan archfarchnadoedd fel rheol gan nad yw'r grid graddio safonol mor bwysig, e.e. mwy o amrywiaeth o ran cigach, darnau o gig â mwy o fraster arnynt
- Gellir canolbwyntio'r gwerthiannau'n fwy ar flas ac ansawdd y cig – yn hytrach nag ar sut y mae'n edrych ac ar brisiau
- Potensial i gynyddu gwerth eich cynhyrchion, trwy brosesu ar y fferm, neu trwy ddefnyddio cyfleusterau megis y Canolfannau Bwyd Cymreig.

Serch hynny, dylid ystyried **anfanteision** gwerthu trwy'r marchnadoedd hyn:

- Angen buddsoddi mewn cyfalaf, datblygu sgiliau newydd a chasglu gwybodaeth
- Y mae gofynion amser yn bodoli ar gyfer gwerthu uniongyrchol mewn marchnad sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol
- Prinder staff medrus mewn ardaloedd gwledig.

## 4. Ffynonellau cymorth ar gyfer marchnata

| Enw a chyfeiriad | Manylion |
|---|---|
| **Cambrian Organics** Horeb, Llandysul, Ceredigion SA44 4JG<br>Bill Lawrence, 01559 363151 www.cambrianorganics.co.uk | Cwmni o ffermwyr sy'n cydweithio er mwyn marchnata cig organig yn uniongyrchol i'r cyhoedd trwy'r rhyngrwyd ac archebion drwy'r post |
| **Graig Farm Producer Group**<br>Dolau, Llandrindod Wells, Powys LD1 5TL<br>Bob Kennard, 01597 851655 www.graigfarm.co.uk | Grŵp o oddeutu 200 o ffermwyr ledled Cymru sy'n marchnata i arwerthwyr lluosog yn ogystal ag yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Y mae'r grŵp wedi ymgysylltu â Ffederasiwn y Grwpiau Marchnata Da Byw Organig |
| **Organic Livestock Marketing Co-operative (OLMC)**<br>8 The Lanterns, Royston, Hertfordshire SG8 7BX<br>Tim Leigh, 01763 250313 www.olmc.co.uk | Cwmni da byw a reolir gan ffermwyr ledled y DU. Y mae'n marchnata gwartheg cadw ac ŵyn o ffermydd ei aelodau |
| **Y Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig**<br>Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, LD2 3NJ<br>Trisha Powell, 01982 551111 www.welshblackcattlesociety.org | Y mae'r Gymdeithas, sy'n ymwneud â chynhyrchu cig organig a chig nad sy'n organig, yn cynnal gwerthiannau pedigri ac yn darparu gwybodaeth i aelodau |
| **Food Centre Wales,** Horeb Business Park, Llandysul, Ceredigion SA44 4JY 01559 362230<br>www.foodcentrewales.org.uk | Gall Canolfannau Bwyd roi cymorth gyda datblygu cynnyrch ynghyd â chyngor ynghylch arallgyfeirio a sefydlu busnesau newydd |
| **Food Technology Centre,** Coleg Menai, Llangefni, Ynys Môn LL77 7HY 01248 370125 www.foodtech-llangefni.co.uk | |
| **Soil Association Organic Marketplace**<br>0117 914 2400 www.soilassociation.org/organicmarketplace | Cyfarwyddiadur chwiliadwy mwyaf y DU ar gyfer prynu a gwerthu da byw organig a bwyd anifeiliaid ar-lein. Di-dâl |
| **WDA** Ymholiadau: 08457 77 55 77, neu Jonathan Parker, 02920 368 251 jonathan.parker@wda.co.uk | Efallai fod Grantiau Prosesu a Marchnata ('PMG') ar gael i fusnesau sydd am ddatblygu prosesu cig coch |

### Proseswyr

Ceir rhestr o fannau sy'n lladd ac yn prosesu'n breifat ar Ffeithlen Rhif 12 OCW, sef 'Marchnata cig coch organig: gwerthu'n uniongyrchol. Cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru i gael copïau rhad ac am ddim, neu llwythwch i lawr o: www.organic.aber.ac.uk/library/factsheets